# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynglŷn â statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru; i ddarparu ar gyfer Cyngor Partneriaeth y Gymraeg; i sefydlu Swydd Comisiynydd y Gymraeg; i ddarparu ar gyfer Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg; i wneud darpariaeth ynglŷn â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac ynglŷn â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; i wneud darpariaeth ynglŷn â safonau'n ymwneud â'r Gymraeg (gan gynnwys dyletswyddau i gydymffurfio â'r safonau hynny, a hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny); i wneud darpariaeth ynglŷn ag ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg; i sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg; i ddiddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Mae'r Mesur hwn, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Rhagfyr 2010 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor ar 9 Chwefror 2011, yn deddfu'r darpariaethau a ganlyn:—**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Introductory Text yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.